
# Adnabod eich toriadau Cig Oen

### Golwython Canol y Gwddf


### Ffiled Gwddf


### Cytledi


### Rhag Cig Oen


### Golwython Lwyn


### Golwython Dwbl


### Cnepynnau


### Stêcen Ffolen heb Asgwrn


### Stêcen Pen Bras / Ffolen


### Stêcs Ysgwydd



### Ysgwydd heb Asgwrn wedi Rholio


### Stêcs Ffolant


### Ciwbiau


### Briwgig


### Brest heb Asgwrn wedi Rholio


### Coes heb Asgwrn


### Stribedi Tro-ffrio


### Hanner Coes gydag Asgwrn


### Stêcs Coes


### Siancen


## RHANNAU O'R CARCAS

### GWDDF
Mae cig o'r gwddf yn cynnwys cyfran uchel o feinwe cysylltiol a gall fod angen dulliau coginio hir a llaith. Gall golwython canol y gwddf gael eu grilio. Gall ffiledau'r gwddf, heb yr asgwrn ac wedi'u trimio'n dda, gael eu coginio ar dymheredd uwch am lai o amser.

### YSGWYDD
Mae'r ysgwydd yn cynhyrchu toriadau tyner i'w rhostio gyda blas da, ar gael ar yr asgwrn, neu heb yr asgwrn ac wedi rholio. Defnyddir cig yr ysgwydd yn aml i gynhyrchu briwgig, cig wedi'i giwbio a stêcs ysgwydd.

### COES
Mae'r goes yn cynhyrchu toriad ardderchog i'w rostio naill ai ar yr asgwrn, neu heb yr asgwrn ac wedi'i rolio. Mae'r goes hefyd yn aml wedi'i thorri'n amrywiaeth o stêcs coes a stribedi tro-ffrio ar gyfer coginio cyflym.

### SIANCEN FLAEN A SIANCEN
Mae'r siancen flaen yn disgrifio toriad cig o'r goes flaen; daw siancen cig oen o'r goes ôl. Yn y ddau achos, mae'r cig yn goch gyda chyfran uchel o feinwe cysylltiol sydd angen ei goginio'n hir ar dymheredd isel.

### DARN GORAU'R GWDDF
Daw'r darn gorau o wyth asen gyntaf y carcas, sef y rhag cig oen. Gall cytledau a stêcs ffolant gael eu cynhyrchu o'r darn gorau.

### BREST
Mae cig o'r frest angen ei goginio'n araf gan ei fod yn cynnwys llawer o gartilag a meinwe cysylltiol. Fe ddefnyddir y cig hefyd i gynhyrchu briwgig.

### PEN BRAS
Gall y pen bras gael ei dorri'n olwython neu stêcs a'u defnyddio ar gyfer dulliau coginio sydyn a dulliau coginio araf.

### LWYN
Mae cig o'r lwyn yn darparu golwython, stêcs a chnepynnau. Gall yr asgwrn gael ei dynnu'n llwyr o'r lwyn, ei stwffio a'i rolio i gynhyrchu toriadau i'w rhostio.

### TECHNEGAU COGINIO
- Barbeciwio a grilio
- Rhostio
- Ffrio a thro-ffrio
- Coginio'n araf

Am fwy o wybodaeth ewch i hwbcigcoch.cymru